

Tim Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

27 Chwefror 2014

Annwyl Syr,

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:  
Dangosyddion arfaethedig ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein diben yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.

Mae Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012 yn rhoi dyletswyddau i Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â mynediad a hamdden, safleoedd hanesyddol a lles - iechyd a lles cymdeithasol unigolion a chymunedau, a lles economaidd unigolion, busnesau a chymunedau, yn benodol. Mae ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y dangosyddion arfaethedig ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 yn seiliedig ar y dyletswyddau penodol hyn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad clir hwn sydd wedi'i gyflwyno'n dda. Mae crynodeb o'n sylwadau isod.

**Incwm a Chyflogaeth**

Byddai'n ddefnyddiol ymchwilio i sut gellid casglu data am bobl nad ydynt yn gymwys i gael budd-dal ar hyn o bryd gan eu bod yn rhan o gynllun hyfforddi 'dychwelyd i'r gwaith' neu newydd gael eu gwneud yn ddi-waith. Nid yw pobl yn y sefyllfa hon yn cael eu cynnwys yn nadansoddiadau ystadegol y Llywodraeth gan nad ydynt ar restr hawlio eto.

**Iechyd**

Byddem ni'n cefnogi cynnwys:

- dangosydd ar glefydau cronig lle cafwyd diagnosis, yn amodol ar ansawdd data a datblygu data digonol;
- dangosyddion gordewdra mewn plant – a dangosyddion gordewdra mewn oedolion os oes ffynhonnell ddata addas ar gael.

**Mynediad i Wasanaethau**

Yn dilyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, byddem ni'n argymhell cynnwys teithio ar gefn beic, gyda'r gallu i gael mynediad i wasanaethau drwy deithio ar lwybr beiciau fel dull mesur, gan ddefnyddio agosrwydd anheddau a gwasanaethau at lwybr beiciau.

Cytunwn â'r cynigion i gyfuno trafndiaeth gyhoeddus a phreifat.

**Diogelwch Cymunedol**

Croesawn gynnwys troseddau ac aflonyddu ar sail hil neu grefydd ar y rhestr dangosyddion. Os nad ydynt wedi'u cynnwys yn y codau trosedd a nodwyd, rydym yn argymhell cynnwys troseddau casineb a gofnodwyd sy'n ymwneud ag anabled, hunaniaeth o ran rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

Yn y tymor hwy, byddai'n ddefnyddiol iawn cynnwys tipio anghyfreithlon fel dangosydd, ond deallwn nad yw cofnodion data yn ddigon cadarn. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner i ganfod ffyrdd o wella gwaith cofnodi.

Byddem yn cefnogi'n frwd y dewis a ffafirir sef cynnwys dangosydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### **Amgylchedd Ffisegol: 5.7.2 – Agosrwydd at fan gwyrdd naturiol**

Rydym yn argymhell y dylid cyfeirio at y mater hwn ym Mynediad i Wasanaethau, yn unol â'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar Wasanaethau Ecosystemau.

Deallwn pam na ellir cynnwys agosrwydd at fan gwyrdd naturiol fel dangosydd eto. Er hyn, mae'n hanfodol ein bod yn mynd ati i sicrhau bod data addas ar gael ar gyfer Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru yn y dyfodol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n cydweithio â sefydliadau partner ar y mesur pwysig hwn, gan edrych ar sut gallwn ni ddatblygu ffynonellau data fel y Pecyn Cymorth Gwyrddfannau ac arolygon 'Space for People' Coed Cadw. Mae llawer o waith ymchwil a thystiolaeth yn dangos bod mynediad i fannau gwyrdd yn dda i iechyd a lles.

Mae dadansoddiadau presennol ar fynediad i fannau gwyrdd naturiol yn tueddu i gynnwys mynediad corfforol *posibl* a dangosol yn lle manau hygyrch *gwirioneddol* wedi'u dilysu. Bydd yn rhaid i fethodolegau fynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol.

### **Amddifadedd Gwledig**

Rydym yn deall cyfyngiadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru o ran amddifadedd gwledig, ond yn croesawu'n fawr y cynnig i fynd i'r afael â'r mater drwy ddadansoddi dangosyddion sylfaenol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

### **Atodiad G – Ansawdd Aer**

- Mae crynodiadau llygredd aer yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Felly, mae angen y data mwyaf diweddar i amcangyfrif yr effaith ar amddifadedd. Efallai nad yw defnyddio data sydd hyd at dair blwydd oed (fel y mae'n ymddangos y mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ei wneud) yn gynrychiadol. Mae Fforwm Ansawdd Aer Cymru yn cyhoeddi data ansawdd aer sydd bron yn gyfredol.
- Mae llygredd aer yn dymhorol iawn. Er nad yw gwerthoedd terfyn blynyddol cyfartalog yn cael eu torri, efallai y bydd cyfnodau estynedig o gynnydd sylweddol mewn llygredd wedi'u dilyn gan lefelau is. Yn ystod y cyfnodau o gynnydd, gall lefel yr amddifadedd fod yn sylweddol.
- Mae data Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol (fel y'i defnyddir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) yn aml yn amlygu bod terfynau neu werthoedd targed wedi'u torri yn seiliedig ar foddelu, er nad yw'r data mesuredig cyfatebol yn dangos y cyffelyb. Byddai Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru felly'n rhoi camagraff o amddifadedd.

Diolch am y cyfle i roi sylwadau ar y cynigion hyn.

Yn gywir,

Ceri Davies

Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning

Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

Ffôn/Tel: (029) 20466045

Ffôn symudol / Mobile: 07818008865

E-bost/E-mail: [ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) [ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk)